



Gweithredwr Prosesydd Geiriau

Cytundeb Cyfnod Penodol Cychwynnol o 12 mis
Llawn Amser – 37 awr
Gradd 5
Cyflog: £24,294 – £24,702 y flwyddyn

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf blaenllaw'r DU a'r mwyaf o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae ardal ein Gwasanaeth yn ymestyn o Gas-gwent yn y Dwyrain i Bort Talbot yn y Gorllewin ac o arfordir y De i Fannau Brycheiniog yn y Gogledd. Rydym yn gweithredu o 47 o Orsafoedd Tân ar draws ardal y Gwasanaeth ac mae ein Pencadlys yn Llantrisant.

Mae swydd fel Gweithredwr Prosesydd Geiriau Cymorth Busnes wedi codi o fewn ein Hadran Cymorth Busnes yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y rôl yn ein Pencadlys yn Llantrisant ac mae am **37 awr yr wythnos**.

Mae'r iaith Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Pe bai gennych unrhyw gwestiynau ychwanegol, fe'ch gwahoddir i gysylltu â'r Rheolwr Cymorth Busnes, Nicola Davies ar e-bost: **n-davies@decymru-tan.gov.uk** neu wrth ffonio **01443 232209**.

Mae gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiad a chymwysterau priodol yn unol ag amlinelliad y Fanyleb Person. Mae penodiad ar gyfer y rôl hon yn amodol ar gyflawni gwiriad Manwl y Rhestr(au) Gwaharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Cyn y gwneir unrhyw gynigion ffurfiol bydd yn ofynnol i yr ymgeiswr llwyddiannus gael Prawf Cyffuriau ac Alcohol.

Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ac mae system gweithio hyblyg ar waith.

A fyddwch cystal â nodi fod hon yn broses gystadleuol iawn a dim ond y rhai hynny sydd wedi arddangos tystiolaeth lawn yn erbyn pob un o feini prawf hanfodol y fanyleb person bydd yn camu ymlaen i'r Broses Ddethol.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnha, u eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Dylid llenwi Ffurflenni Cais ar-lein trwy ein system e-recriwtio, y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan:
<https://www.decymru-tan.gov.uk/gweithio-i-ni/swyddi-gwag-diweddaraf/>
Os oes angen fersiwn papur, e-bostiwch: personel@decymru-tan.gov.uk

Dylai pob ymgeisydd mewnol wneud cais trwy eu porth CORE, gan ddewis “Swyddi Gwag Cyfredol” o'r tab ar y chwith.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw **18/04/2024 12:00 hanner dydd**.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

